# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL :** | Mr. T. Victor Hughes (Cadeirydd)<br>Mr. Aled M. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Lewis Davies, Richard A. Dew, Jeff Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, Kenneth P. Hughes, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws, Carwyn Jones, Gwilym O. Jones, H. Eifion Jones, Raymond Jones, Richard O. Jones, R.Ll. Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE Nicola Roberts, Peter S. Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd R. Thomas, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Derlwyn R. Hughes, Trefor Ll. Hughes, W.T. Hughes, Dylan Rees. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r canlynol:-

*"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12 y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."*

**3** **I APWYNTIO 'SYRFEWR CYMWYSEDIG' I WEITHREDU AR RAN YR YMDDIRIEDOLAETH MEWN PERTHYNAS A GWERTH TIR ELUSENNOL AC I GYNGHORI AR DDIBENION CYSYLLTIEDIG**

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd yn rhoi gwybodaeth gefndirol ar y bwriad i gyflogi Syrfëwr Cymwysedig mewn perthynas â'r uchod.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag amseriad y gwerthiant arfaethedig a chefndir moesegol y cwmni oedd yn cael ei ystyried.

**PENDERFYNWYD y dylid rhoddi awdurdod i'r Ysgrifennydd symud ymlaen i benodi Syrfëwr Cymwysedig i weithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth gyda gwerthu tir yr elusen ac i roi cyfarwyddyd i'r Cyngor ar faterion perthynol.**

(Roedd Ms. Ann Griffith yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei bod wedi atal ei phleidlais ar y mater.)

**4** **GWEINYDDU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YN Y DYFODOL**

Cymerodd yr Ysgrifennydd y cyfle i roi diweddariad i'r aelodau ar y cynnydd a wnaed ynglŷn â gweinyddu'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau am i adroddiad ar y mater gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth a bod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi yn y cyfarfod hwnnw i'r polisi mewn perthynas â buddsoddiadau a grantiau.

**PENDERFYNWYD y byddid yn gofyn i'r Ysgrifennydd adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Ymddiriedolaeth ar y materion a godwyd uchod.**

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**